

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mawrth 7fed 2017 yn Neuadd Mynach. Yn bresennol oedd Gary Thomas (Cadeirydd), Gethin Morris, Dewi Pritchard, Eilir Rowlands, Eifion Davies, Maldwyn Jones, Gwynedd Jones, Rita Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r cler.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Tina Davies, Alwyn Jones, Gwenda Evans, Gwenda Morris ac Iolo Evans.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a chafwyd yn gywir.

a) Datgan Buddiant.

Nodwyd buddiant y cynghorwyr gyda'r ceisiadau ariannol perthnasol.

b) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

i) Coeden ywen ym Mynwent Llanfor.

Adroddodd y cler eu bod wedi ail edrych ar yr adroddiad a dderbyniwyd ac nid oedd unrhyw bryder am gyflwr y goeden.

ii) Cyllideb Cynnal Llwybrau Cyhoeddus.

Trafodwyd yr wybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd gan y Bartneriaeth ynglŷn â chostau torri'r llwybrau a'r toriadau i'r cyllid blyneddol. Cytunwyd mewn egwyddor i gyfrannu at y costau o dorri'r llwybrau ond cynigwyd dull arall o weithio allan cyfraniadau unigol y cynghorau.

Ymateb i'r cwynion a godwyd yn y cyfarfod diwethaf:-

iii) Gwasanaeth ail-gylchu Cyngor Gwynedd.

Cafwyd ymddiheuriad gan swyddogion Cyngor Gwynedd am safon y gwasanaeth a nodwyd y byddai'r materion yn cael eu trafod gyda'r gweithlu i sicrhau na fyddai yn digwydd eto.

c) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd

i) DEWIS Cymru - cytunwyd i arddangos y poster a oedd yn hyrwyddo'r wefan lle roedd gwybodaeth ar gael am sefydliadau lles yng Nghymru.

ii) Etholiadau Cynghorau Tref / Cymuned - 4/5/17. Dosbarthwyd y pecynnu enwebu a chytunwyd y byddai'r cler yn dychwelyd y ffurflenni gorffenedig i swyddfa Cyngor Gwynedd yn Nolgellau cyn diwedd y cyfnod enwebu.

b) Un Llais Cymru

i) Derbyniwyd gwybodaeth am y cwrs hyfforddiant yng Nghanolfan Henblas ar y15/3/17.

ii) Bwletin Chwefror 2017 - Gwybodaeth am y materion a fydd o dan sylw'r archwilwyr ariannol dros y blynedd nesaf.

c) Amrywiol

i) Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru – Arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd.

ii) Llywodraeth Cymru – Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol.

ch) Ceisiadau Cynllunio.

i) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol a chytunwyd i'w chefnogi:-

C17/0186/04/YA – Adnewyddu/ymestyn adeiladau allanol ar gyfer defnydd amaethyddol drwy osod dau do llechi brig newydd. Hafoty Ganol, Llandderfel.

d) Materion Ariannol.

i) Adroddiad Ariannol - monitro derbyniadau a thaliadau.

Cyflwynodd y cler yr adroddiad ariannol i ddiwedd Chwefror a chafwyd yn gywir.

ii) Tendrau torri glaswellt y mynwentydd.

Trafodwyd y prisiau a dderbyniwyd ar gyfer y gwaith a chytunwyd i roi'r gwaith i Gwmni Ciltalgarth a Dylan Thomas. Gofynnwyd i'r clerc i hysbysu'r ymgeiswyr eraill o benderfyniad y Cyngor.

iii) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

BDO (archwilwyr allanol), Cyflog a chostau'r clerc (Ionawr i Fawrth), CTHEM (TWE)
Ciltalgarth (torri glaswellt a chlirio coed ym mynwentydd Frongoch a Llanfor), Costau Ilogi - Neuadd
Llandderfel, Neuadd Mynach, Festri Glanrafon a Neuadd Sarnau a Y Cyfnod (hysbyseb tendr mynwent).

iv) Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd cyfrannu i'r mudiadau ac elusennau canlynol gan adael arian digonol tu cefn ar gyfer cyfri'r fynwent ac unrhyw wariant annisgwyl a alli'r godi yn y flwyddyn ariannol nesaf:-

Neuadd Sarnau (Gwynedd Jones yn datgan buddiant), Neuadd Mynach, Neuadd Llandderfel (Maldwyn Jones a Dewi Pritchard yn datgan diddordeb), Canolfan yr Henblas, Ysgol Bro Tryweryn, Ysgol Ffridd y Llyn, Ysgol Feithrin Sarnau a Llandderfel, CFFI Meirionnydd, Urdd Gobaith Cymru - Cylch Penllyn, Cantref (Eilir Rowlands yn datgan buddiant), Sioe CFFI Cwmtirmynach, Hosbis Tŷ'r Eos, Ambiwylans Awyr Cymru, Eisteddfod Gadeiriol Llandderfel, Ysgol Y Berwyn a Cyngor ar Bopeth.

dd) Unrhyw Fater Arall.

i) Car wedi cael ei adael ym mhentref Llanfor.

Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau ynglŷn â'r car a oedd wedi cael ei ddifrodi mewn damwain ac wedi cael ei adael yn y pentref er misoedd.

ii) Gofynnwyd i'r clerc basio'r materion canlynol ymlaen i sylw'r Adran Cefnffyrdd:-

a) Ffordd wedi rhoi ger Cynlas, Cefnddwysarn - gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau ynglŷn â'u cynlluniau i atgyweirio'r difrod a wnaed i ochr y ffordd pan fu damwain yno rhai misoedd yn nol.

b) Twll archwilio wedi malu ar yr A494 rhwng Y Bryn, Bala a phentref Llanfor.

c) Dwr yn hel ar y ffordd ger Bryn Ethol, Cefnddwysarn a gwter wedi tagu wrth fynedfa Creigiau ger Cynlas, Cefnddwysarn.